

Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 5 Chwefror 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

187(v3)

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

3 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Digartrefedd a Chysgu Allan

(45 munud)

4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Cymru

(45 munud)

5 Dadl: Dyfodol Rheilffordd Cymru

(60 munud)

NDM6954 - [Rebecca Evans \(Gwŷr\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

1. Yn siomedig yn y tanfuddsoddi hanesyddol gan Lywodraeth y DU yn seilwaith rheilffyrdd Cymru a chyfleoedd a gollwyd yn ddiweddar i wella capasiti y seilwaith strategol yng Nghymru.
2. Yn tynnu sylw at y gwaith, sydd wedi'i gyhoeddi, gan yr Athro Mark Barry: 'Y Rhwydwaith Rheilffyrdd yng Nghymru – Yr Achos dros Fuddsoddi' a'r cynigion ynddo i wella y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru a'r prif reilffyrdd sy'n gwasanaethu Cymru.
3. Yn cefnogi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Rheilffyrdd Llywodraeth y DU sy'n cael ei gynnal gan Keith Williams.
4. Yn credu bod buddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd strategol yn hanfodol i ba mor gystadleuol fydd Cymru yn y dyfodol, waeth ar ba delerau y byddwn yn ymadael â'r UE, ac yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatblygu amserlen ar gyfer bodloni ei rhwymedigaethau cyfredol ar gyfer y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws Ewropeaidd, gan gynnwys trydaneiddio prif reilffyrdd Gogledd a De Cymru yn llawn.

[Y Rhwydwaith Rheilffyrdd yng Nghymru – Yr Achos dros Fuddsoddi](#)

[Datganiad Ysgrifenedig yn cynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Rheilffyrdd Llywodraeth y DU](#)

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwellaint 1 – [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Dileu pwynt 1.

[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]

Gwellaint 2 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ym mhwynt 1, dileu 'siomedig yn y' a rhoi yn ei le 'condemnio'r'.

Gwellaint 3 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 1:

', gan gydnabod bod Cymru'n llusgo ar ôl gweddill y DU yn ddifrifol, o ran buddsoddi mewn seilwaith trafndiaeth.'

Gwellaint 4 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2:

'ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu'r argymhellion, gyda phwyslais ar gysylltu'r gogledd a'r de drwy ail-agor rheilffyrdd y gorllewin.'

Gwellaint 5 – [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Dileu pwynt 3.

Gwellaint 6 – [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Dileu popeth ar ôl 'UE' ym mhwynt 4 ac ychwanegu pwyntiau newydd:

Yn gresynu at berfformiad gwael diweddar gwasanaethau rheilffyrdd, gan gynnwys oedi mynych a chanslo teithiau, a weithredir gan Trafnidiaeth Cymru ers dod yn gyfrifol am wasanaethau ar fasnachfaint Cymru a'r Gororau.

Yn gresynu at yr oedi wrth ail-sefydlu gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol rhwng Cymru a Lerpwl.

Yn nodi'r rôl y gall Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ei chwarae wrth helpu i lunio gweledigaeth ar gyfer seilwaith rheilffyrdd Cymru.

Yn nodi maint y cyfraniad y bydd bargeinion dinas a bargeinion twf Llywodraeth y DU yn eu gwneud.

Yn annog Llywodraeth Cymru i gydweithio â Llywodraeth y DU a'r holl randdeiliaid perthnasol er mwyn parhau i wneud cynnydd o ran gwella gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru.

Gwellaint 7 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd datgarboneiddio trafndiaeth gyhoeddus ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i dulliau adnewyddadwy o bweru trafndiaeth gyhoeddus.

Gwellaint 8 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ffocws o'r newydd gan Lywodraeth Cymru ar weithio tuag at ailagor rheilffordd Gaerwen i Amlwch ar draws Ynys Môn yng ngoleuni cyhoeddiadau economaidd diweddar sy'n peri pryder.

6 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 6 Chwefror
2019